# Asesu Cais am Grant Cyfalaf– Meini Prawf a Phwysoliad

## Grant Diogelwch Ffyrdd

| **Meini Prawf** | **Pwysoliad (P)** |
|---|---|
| Yn cefnogi lleihau nifer y bobl sy'n cael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol, ar gyfer grwpiau risg uchel neu grwpiau sy'n agored i niwed | 5 |
| Yn targedu lleoliadau neu lwybrau sydd â hanes o bobl yn cael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol | 5 |
| Gwerth am arian | 4 |
| Y gallu i gyflawni'r cynllun | 4 |
| Yn gwella ansawdd bywyd, yn enwedig yn achos y rhai sy'n byw mewn cymunedau difreintiedig | 4 |
| Ymgysylltu â'r grŵp perthnasol o ddefnyddwyr ffyrdd agored i niwed | 3 |
| Tystiolaeth i gefnogi'r angen am ymyriad a bod cynlluniau arfaethedig yn rhoi sylw i brif achosion gwrthdrawiadau | 3 |
| Yn annog cerdded a beicio a defnyddio teithio cynaliadwy | 3 |
| Yn targedu safleoedd, llwybrau neu ardaloedd sydd â hanes o nifer sylweddol o wrthdrawiadau mân anafiadau a difrod yn unig | 3 |
| **Sgôr uchaf posibl** | **170 a sgôr arian cyfatebol** |
| Arian cyfatebol (argymhellir cyfraniad o 10%)<br>( ≤ 10% = 1; 10%-20% = 2; 20% -30% = 3; etc) | 3 |

## Llwybrau Diogel mewn Cymunedau

| **Meini Prawf** | **Pwysoliad (P)** |
|---|---|
| A oedd y cynllun wedi'i gynnwys yn rhestr ysgolion 2014? | Oedd / Nac oedd |
| Os nad oedd, a oes eglurhad? | Oes / Nac oes |
| A yw'r cynllun yn ffitio i mewn i'r rhwydwaith teithio llesol presennol neu arfaethedig? | Ydy / Nac ydy |
| Yn gwella llwybrau cerdded a beicio i'r ysgol ac oddi yno | 5 |
| Yn gwella diogelwch ac yn lleihau nifer y bobl sy'n cael eu lladd neu eu hanafu | 4 |
| Potensial y cynllun ar gyfer newid ymddygiad/agwedd disgyblion at deithio llesol | 4 |

| | |
|---|---|
| Yn gwella ansawdd bywyd, yn enwedig i'r rhai hynny sy'n byw mewn cymunedau difreintiedig | 3 |
| Ymgysylltu â phlant a phobl ifanc | 4 |
| Gwerth am arian | 3 |
| Y gallu i gyflawni'r cynllun | 3 |
| **Sgôr uchaf posibl** | **130 a sgôr arian cyfatebol** |
| Arian cyfatebol (argymhellir cyfraniad o 10%)<br>( ≤ 10% = 1; 10%-20% = 2; 20% -30% = 3; etc) | 3 |

Nodiadau

Ni fydd Cynlluniau Llwybrau Diogel yn cael eu derbyn os nad oeddent ar restr 2014 ac os na roddir eglurhad pam y maent yn cael eu cyflwyno nawr.

Ni dderbynnir Cynlluniau Llwybrau Diogel heb eglurhad o'r modd y maent yn cyd-fynd â'r rhwydweithiau teithio llesol presennol ac arfaethedig.

a) Sgorio

5 = Rhagorol

4 = Da Iawn

3 = Da

2 = Boddhaol

1 = Gwael

0 = Dim neu Ddim Tystiolaeth

b) Cyfrifo – Lluosir y pwysoliad â'r sgôr ar gyfer gwerthoedd yr asesiadau, ac maent i gyd yn cael eu hadio i roi'r gwerth terfynol.

c) Arian cyfatebol – argymhellir cyfraniad o 10%. Bydd cynlluniau sy'n cynnwys arian cyfatebol yn denu sgorau ychwanegol.

**Grant Refeniw Diogelwch Ffyrdd – Meini Prawf**

Mae awdurdodau lleol wedi cael dyraniad dangosol i ariannu mentrau addysgol. Y dyraniad dangosol yw'r cyllid mwyaf a roddir.

Pennir cymhwystra fel a ganlyn:

1. Mae'r cyllid ar gyfer ymyriadau â blaenoriaeth (Pass Plus Cymru; Megadrive; Hyfforddiant gyrwyr beiciau modur; Kerbcraft; Hyfforddiant Safonau Beicio Cenedlaethol);

2. Mae cyllid ar gyfer ymyriadau eraill a brofwyd neu ar gyfer ymyriadau newydd sy'n bodloni'r gofynion ar gyfer gwybodaeth ategol fel a ganlyn:

- Data i ddangos pam y mae angen ymyriad ar gyfer grŵp targed penodedig yn yr awdurdod;
- Tystiolaeth a ddefnyddiwyd er mwyn penderfynu pam mai'r ymyriad a ddewiswyd yw'r dull priodol o weithredu;
- Disgrifiad o'r dull cyflawni a sut y nodwyd bod y dull gweithredu hwnnw'n briodol;
- Costau datblygu a/neu gyflawni'r ymyriad ac asesiad a yw'r rhain yn cynnig gwerth am arian. Dylech egluro pa wahaniaeth y bydd y buddsoddiad yn ei wneud gan gyfeirio at eich tystiolaeth werthuso ar leihau achosion lle mae pobl yn cael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol;
- Ar gyfer ymyriadau sy'n bodoli'n barod, adroddiadau gwerthuso a chynlluniau ar gyfer gwerthuso parhaus i fesur effeithiolrwydd;
- Ar gyfer ymyriadau newydd, disgrifiad o'r modd y bydd gwerthuso parhaus yn cael ei ymgorffori wrth gynllunio'r ymyriad.